

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

## **Gwybodaeth ynghylch prawf positif o covid-19 yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth**

**Mae un person yn nosbarth Blwyddyn 3 Buddug Davies wedi profi'n bositif i Covid 19 ddoe ac mae Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru wedi'u hysbysu o'r achos positif.**

**Mae pob cyswllt agos â'r achos wedi'u hadnabod. O ganlyniad bydd dosbarth Blwyddyn 3 Buddug Davies ar gau yfory.**

Bydd disgwyl i ddisgyblion a staff dosbarth Blwyddyn 3 Buddug Davies **hunan ynysu am 10 diwrnod**. Y cyngor hunan ynysu yw i **blant ac athrawon dosbarth Blwyddyn 3 Buddug Davies** aros adref, i beidio mynd tu allan i ymarfer corff, beidio ymweld â siopau, teulu, ffrindiau na mannau cyhoeddus; ac i beidio â gwahodd pobl i'w cartrefi.

**Ni fydd** yn rhaid i weddill y bobl sy'n byw yn yr un tŷ â'r disgublion a staff dosbarth Blwyddyn 3 Buddug Davies hunan ynysu. Felly gall unrhyw frodyr neu chwiorydd barhau i fynychu ysgol cyhyd eu bod yn iach.

Bydd gwaith yn cael ei ddarparu i ddisgyblion dosbarth Blwyddyn 3 Buddug Davies ar Teams tra bod eu dosbarth ar gau.

### **Gweddi dosbarthiadau Blynnyddoedd 3 a 4 yn unig**

**Nid yw eich plentyn wedi cael ei h/adnabod fel cyswllt agos ond FEL MATER RHAGOFALUS YN UNIG** mi fydd dosbarth Blwyddyn 3 Meryl Wigley, Blwyddyn 4 Siân Eleri Davies a Blwyddyn 4 Dyfed Jones hefyd yn aros adref yfory. **NID OES ANGEN I'R TRI DOSBARTH YMA HUNANYNYSU.**

Oherwydd y modd mae'r Ysgol yn rhedeg ar hyn o bryd, mae gweddill dosbarthiadau yn medru parhau i fod ar agor yfory.

### **Dosbarthiadau'r Meithrin, Derbyn, Blynnyddoedd 1, 2, 5 a 6**

**Nid yw eich plentyn wedi cael ei h/adnabod fel cyswllt agos ac felly nid oes angen iddo/iddi hunan ynysu.** Gall barhau i fynychu fel arfer.

Yn unol â chanllawiau lechyd Cyhoeddus Cymru, **ni fydd** y disgublion na'r staff yn cael eu profi am Covid 19 **oni bai eu bod nhw'n datblygu symptomau.**

Anfonwn y llythyr hwn er mwyn eich hysbysu o'r sefyllfa bresennol ac i ddarparu cyngor ar sut i gefnogi eich plentyn. Prif symptomau Covid yw tymheredd uchel, peswch parhaus, colli neu newid i'r synnwyr arogl a/neu flasu.

Os oes gan unrhyw aelod o'ch cartref symptomau Covid (hyd yn oed os ydynt yn symptomau ysgafn), ffoniwch 119 i drefnu prawf yn syth a hysbyswch yr ysgol. Bydd angen i bob aelod o'ch cartref hunan ynysu o'r dyddiad i'r unigolyn ddechrau arddangos symptomau.

Er mwyn lleihau'r risg o ledaenu covid-19, mae pethau y gall pawb yn eich teulu ei wneud i helpu. Mae rhain yn cynnwys:

- Golchi dwylo gyda sebon a dŵr yn aml – dylid gwneud hyn am oleiaf 20 eiliad
- Defnyddio diheintydd dwylo os nad oes sebon a dŵr ar gael

Gwefan  
[www.ysgolgymraeg.cymru](http://www.ysgolgymraeg.cymru)



e-bost  
[prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk)

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

- Golchi dwylo unwaith i chi gyrraedd adref
- Gorchuddio eu ceg a'u trwyn gydag hances neu llawes (nid eu dwylo) pan maent yn peswch neu'n tisian
- Gosod hancesi wedi'u defnyddio yn y bin a golchi dwylo yn syth

Mae hwn yn gyfnod hynod bryderus a heriol i ni i gyd. Fodd bynnag, carwn eich sicrhau ein bod ni'n gweithio'n agos iawn gyda'r Awdurdod Addysg er mwyn gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Cofiwch**, os oes gan unrhyw aelod o'ch cartref symptomau Covid, (tymheredd, peswch parhaus, colli neu newid i'r synnwyd arogl a/neu flasu) mae'n bwysig **nad** ydy'r plant yn mynychu'r ysgol a'ch bod yn ffonio 119 i drefnu prawf yn syth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach parthed y sefyllfa yna pheidiwch oedi cyn cysylltu.

Yn gywir.

**R C Williams**

**Pennaeth**

**13/12/2020**

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

### **Information regarding a confirmed case of covid-19 in Ysgol Gymraeg Aberystwyth**

**One person in Year 3 Buddug Davies tested positive to Covid 19 yesterday, and NHS Wales Test, Trace, Protect has been informed of the confirmed case.**

**All close contacts of the case have been identified. As a result Year 3 Buddug Davies will be closed tomorrow**

Pupils and staff in Year 3 Buddug Davies will be expected to **self-isolate for 10 days**. Self-isolation advice **requires the pupils and staff of Year 3 Buddug Davies** to stay at home, not to go outdoors to exercise, to visit shops, family or friends, or to other public spaces, and not to invite people to their house.

The rest of the people living in the same house as the pupils and staff of Year 3 Buddug Davies **will not** have to self-isolate. Any siblings can therefore continue to attend school provided that they are well.

Work will be provided on Teams while the class is closed.

#### **The rest of Year 3 and 4 classes only**

**Your child has NOT been identified as a close contact but AS A PRECAUTIONARY STEP ONLY** Yr 3 Meryl Wigley, Year 4 Siân Eleri Davies and Year 4 Dyfed Jones will need to stay at home tomorrow. **THESE THREE CLASSES WILL NOT NEED TO SELF-ISOLATE**

Due to the way the School currently runs, the rest of the school can remain open as the school classes are kept completely separate in contact groups.

#### **Pupils in Nursery, Reception, Years 1, 2, 5 and 6**

Your child has **NOT** been identified as a close contact and therefore does not need to self-isolate. They can continue to attend as usual.

In line with Public Health Wales guidance, pupils and staff will **not** be tested for Covid 19 **unless they develop symptoms**.

This letter is to inform you of the current situation and to provide advice on how to support your child.

Covid's main symptoms are high temperature, persistent coughing, loss or change to the sense of smell and/or taste. If any member of your household has Covid symptoms (even if they are mild), call 119 to arrange a test immediately and inform the school. All other household members should self-isolate from when the individual developed symptoms.

To reduce the risk of COVID-19 spreading, there are things that everyone in your family can do to help. These include:

- washing hands with soap and water often – do this for at least 20 seconds
- using hand sanitiser gel if soap and water are not available
- washing hands as soon as they get home

Gwefan  
[www.ysgolgymraeg.cymru](http://www.ysgolgymraeg.cymru)



e-bost  
[prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk](mailto:prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk)

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

- covering their mouth and nose with a tissue or sleeve (not their hands) when they cough or sneeze
- putting used tissues in the bin immediately and washing hands afterwards

These are extremely worrying and challenging times for us all. However, I would like to assure you that we are working very closely with the Education Authority to act in accordance with Welsh Government and Public Health Wales guidance.

**Remember**, if any member of your household has Covid symptoms, (temperature, persistent cough, loss or change to the sense of smell and/or taste) it is important that the children do not attend school and that you call 119 to arrange a test immediately.

If you have any further queries regarding the situation then do not hesitate to contact.

Yours sincerely

**R C Williams**

**Headteacher**

**13/12/2020**